ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2017/18

Crynodeb

Bu eleni'n flwyddyn o ddathlu, cofáu a newidiadau. Dechreuodd y flwyddyn gydag ymweliad â'r Fatican i weld y Pab Francis, a daeth i ben yn Awstralia gydag agoriad Gemau'r Gymanwlad ar ran y Frenhines. Cyflawnodd Eu Huchelderau Brenhinol dros 600 o ymrwymiadau mewn cymunedau amrywiol ar hyd a lled y byd, gan fanteisio ar bob cyfle unwaith eto i gwrdd â miloedd o bobl o bob cefndir, a chlywed eu storïau a rhoi sylw i achlysuron pwysig o ddathlu a choffáu.

Mae'r Gymanwlad, fel arfer, wedi chwarae rôl bwysig ym mlwyddyn Eu Huchelderau Brenhinol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, ymwelodd y Tywysog â 10 o'r 53 gwlad sy'n perthyn i'r mudiad, ac aeth y Dduges gydag ef ar chwech o'r ymweliadau hyn. Gan ddechrau yng Nghanada ym mis Mehefin, dathlodd y Tywysog a'r Dduges ganmlwyddiant a hanner Conffederasiwn Canada. Yn hwyrach yn yr hydref, aeth Eu Huchelderau Brenhinol i Malaysia, Singapôr, Bahrain ac India, a siaradodd y Tywysog ym mob un o'r gwledydd hyn am y cysylltiadau agos sy'n parhau rhwng ein cenhedloedd. Yna, ychydig wythnosau'n ddiweddarach, ymwelodd y Tywysog ag ynysoedd tir-isel y Caribî i weld drosto'i hun y difrod a achoswyd yn ystod Corwynt Irma. Un o bryderon Ei Uchelder Brenhinol ers tro byd yw'r ffyrdd mae'r newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu'r sefyllfaoedd torcalonnus hyn. Pan oedd yn bresennol yng nghynhadledd "Ein Cefnfor" ym Malta, dywedodd y Tywysog: (cyfieithiad) '*Mae synnwyr o frys i fynd â'r afael â'r mater hwn yn dal ar goll... mae'r corwyntoedd trychinebus diweddar wedi bod yn ffyrnicach nag erioed o'r blaen ac os nad yw hynny'n ddigon o'r math o ysgytwad mae angen iddo fod i orfodi pobl i roi sylw i fygythiad anferthol a chynyddol y newid yn yr hinsawdd a'r cynhesu sy'n digwydd yn y cefnforoedd, yna mae'n sicr na allwn ni mwyach ystyried ein bod ni'n rhan o wareiddiad call a synhwyrol*.' Drwy gydol y flwyddyn, aeth y Tywysog yn ei flaen i gyflawni gwaith cyfnod o ddegawdau sydd â'r nod o dynnu sylw at heriau amgylcheddol pwysig eraill, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y gorddefnydd o blastig. Rhoddodd y rhaglenni fel "Blue

Planet” ac ymgyrchoedd effeithiol yn y cyfryngau cenedlaethol fwy o amlygrwydd i’r thema bwysig hon.

Yn ystod eleni hefyd bu nifer o gyfnodau o gofféu a myfyrio cenedlaethol yn sgil yr erchyllterau terfysgol yn Llundain a Manceinion a’r tân trasig yn Nhŵr Grenfell, sef digwyddiadau a achosodd ofid mawr i’r Tywysog a’r Dduges. Aeth Eu Huchelderau Brenhinol i ymweld â phobl a oedd wedi goroesi’r trasiedïau hyn, ynghyd ag aelodau o’r Heddlu, y Gwasanaethau Brys a’r timau meddygol y mae eu gwaith proffesiynol mor amlwg yn ystod digwyddiadau anodd fel hyn. Drwy chwarae eu rhan yn ystod y cyfnodau anodd hyn, mae’r Tywysog a’r Dduges yn parhau i gyflawni’r rôl o ddyletswydd a gwasanaeth sydd wedi bod ers tro byd yn rhai o’r nodweddion sy’n diffinio’r Frenhiniaeth. Y tu hwnt i hynny, cadarnhaodd y Tywysog ei ymrwymiad hirhoedlog i hybu goddefgarwch crefyddol ac i gynyddu cydlyniant diwylliannol. Cafodd neges y Pasg Ei Uchelder Brenhinol ei darlledu ar hyd a lled y byd ar Ddydd Gwener y Groglith, gan ymestyn y tu hwnt i ffiniau ffydd a chymuned er mwyn gwella dealltwriaeth a chydweithredu.

Roedd rhai dathliadau hapus eleni hefyd, yn enwedig i’r Teulu Brenhinol. Soniodd y Tywysog a’r Dduges yn gyhoeddus am eu llawenydd ar adeg dyweddïad Tywysog Harry a Miss Meghan Markle. Roeddent yr un mor llawen pan gyhoeddodd Dug a Duges Caergrawnt eu bod yn disgwyl plentyn arall. Roedd Duges Cernyw’n dathlu ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed yn ystod yr haf, ac fel ffordd o ddathlu cynhaliodd dderbyniad yn Nhŷ Clarence i’r 90 o’r elusennau a’r mudiadau y mae wedi gweithio agosaf gyda nhw ers ei phriodas â Thywysog Cymru.

Cymru

Yn ystod taith flynyddol Eu Huchelderau Brenhinol o amgylch Cymru ym mis Gorffennaf, agorodd Tywysog Cymru a Duges Cernyw’r ganolfan newydd i ymwelwyr yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant, ac ymwelodd y ddau â’r Amgueddfa Gatrodol yn Aberhonddu a Llancaeach Fawr ger Caerffili i weld y Maenordy Jacobeaidd ar ôl y gwaith adfer arno.

Yn ystod yr wythnos, ac yn ystod ymweliadau eraill â Chymru yn ystod y flwyddyn, aeth Tywysog Cymru i ymweld â chymunedau, ffatrïoedd, eglwysi, tafarndai a phentrefi ar hyd a lled y wlad o ardal y Fali yng ngogledd Ynys Môn

i westy'r Celtic Manor yng Nghasnewydd yn y de-ddwyrain, ac yn cynnwys Wrecsam, Ceredigion, Cwmbrân, Trefforest, Felin-fach ac Aberystwyth.

Yn ystod mis Gorffennaf, roedd Ei Uchelder Brenhinol yn bresennol mewn digwyddiadau'n cofláu Brwydr Passchendaele yng Ngwlad Belg lle y darllenodd, yn Gymraeg, ddarn teimladwy o waith y bardd Hedd Wyn a fu farw yn ystod y gwrthdrawiad.

Yn Llwynywermod ger Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin, cartref y Tywysog a'r Dduges yng Nghymru, cynhaliodd y ddau noson o adloniant a ddarparwyd gan aelodau o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, y mae Ei Uchelder Brenhinol yn gweithredu fel ei Noddwr, i westeion o bob rhan o Gymru.

Ym mis Mehefin, roedd Ei Uchelder Brenhinol yn bresennol mewn perfformiad yng Nghaerdydd gan Opera Cenedlaethol Cymru, y mae'n gweithredu fel ei Noddwr.

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	2018 £000oedd	2017 £000oedd
Incwm ac ariannu		
Dugaeth Cernyw	21,730	20,719
Grant Sofran	1,201	1,339
Adrannau'r Llywodraeth	557	461
Cyfanswm incwm ac ariannu	23,488	22,519
Costau swyddogol		
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	(8,523)	(9,092)
Y swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain	(190)	(414)
Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	(1,011)	(925)
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	(557)	(461)
Gwarged ar ôl tynnu'r costau swyddogol	13,207	11,627
Costau Eraill		
Trethi (gan gynnwys TAW)	(4,854)	(4,757)
Gwariant answyddogol	(3,003)	(3,098)
Ariannu gweithgareddau Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, gwariant arall gan gynnwys gwariant cyfalaf, a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	(4,962)	(3,529)
Gwarged ariannol net	388	243

Gwariant

- Gwariant Swyddogol
- Trethi
- Gwariant answyddogol
- Ariannu gweithgareddau Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, gwariant arall gan gynnwys gwariant cyfalaf, a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn

		£miliwn
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol		**8.523**

Gwariwyd dros 51 y cant o'r incwm ar ôl treth y mae Tywysog Cymru'n ei gael o Ddugaeth Cernyw ar ddyletswyddau swyddogol ac elusennol. O'r cyfanswm o £8.523 miliwn, gwariwyd £5.418, neu 64 y cant, ar gostau staff.

Mae Tywysog Cymru'n cyflogi'n uniongyrchol 136.5 o staff sy'n cyfateb i amser llawn. O'r rhain, mae 118.3 yn cynorthwyo Eu Huchelderau Brenhinol wrth iddynt ymgymryd â dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol, ac mae 18.2 yn staff personol neu'n staff garddio a ffermio. Mae'r tabl yn yr adran 'Staff' yn rhestru'r staff swyddogol yn ôl adran yr Aelwyd ac yn rhoi cyfanswm costau'r naill adran a'r llall, gan gynnwys cyflogau a gwariant arall.

	£miliwn
Ariannu drwy Grant Sofran: Y swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain	**0.190**

Tŷ Clarence yw swyddfa a chartref swyddogol Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn Llundain. Defnyddir y tŷ ar gyfer ciniawau, derbyniadau a chyfarfodydd swyddogol, ac mae'n gweithredu hefyd fel swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol. Mae'r prif ystafelloedd ar lawr gwaelod Tŷ Clarence ar agor i'r cyhoedd rhwng mis Awst a diwedd mis Medi bob blwyddyn. Mae gan yr Aelwyd swyddfeydd eraill hefyd mewn rhannau eraill o Balas St James. Y Grant Sofran ar gyfer cartrefi swyddogol sy'n talu costau cynnal a chadw Tŷ Clarence a chostau'r swyddfeydd eraill ym Mhalas St James.

	£miliwn
Ariannu drwy Grant Sofran: Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	**1.011**

Rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd yw, ochr yn ochr â Duges Cernyw, dod â phobl at ei gilydd yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, gweithredu fel canolbwynt i fywyd y genedl a chynrychioli'r wlad mewn gwledydd tramor. Mae hyn yn golygu llawer o deithio y mae angen ei wneud mewn ffordd effeithlon a diogel sy'n ateb y gofynion cyflwyno. Yn 2017-18, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol dros 55,000 o filltiroedd wrth deithio i gyflawni ymrwymiadau swyddogol yn y Deyrnas Unedig a thramor ar ran y Llywodraeth. Roedd tua hanner y milltiroedd yn golygu teithio mewn gwledydd tramor. Y Grant Sofran oedd yn talu'r rhan fwyaf o gostau'r teithiau i wledydd y tu allan i'r Deyrnas, sef cyfanswm o £1.011 miliwn yn 2017-18. Y gwledydd eu hunain sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau teithio i wledydd y Deyrnas.

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y costau amrywiol yn unig ar gyfer teithiau'n defnyddio Hofrennydd Y Frenhines a'r Trên Brenhinol. Gwneir hyn am fod costau sefydlog yr awyrennau a'r trên yn digwydd p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio neu beidio, ac nid ydynt yn dod yn sgil mynd ar unrhyw deithiau penodol. Mae esboniad llawn o hyn yn Adroddiad Blynyddol 2017-18 ar y Grant Sofran sydd ar gael ar y wefan www.royal.gov.uk.

Roedd yr allyriadau o nwyon tŷ gwydr a oedd yn deillio o deithiau swyddogol yn 3,124 o dunelli metrig. Roedd y swm yn cynnwys 2,254 o dunelli metrig a ddeilliodd o deithio mewn gwledydd tramor.

		£miliwn
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol		**0.557**

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn talu costau'r ymweliadau tramor swyddogol gan Dywysog Cymru a Duges Cernyw (ac eithrio'r costau teithio a ddaw drwy Grant Sofran ar gyfer teithiau swyddogol mewn awyrennau a threnau).

Mae dau aelod o Swyddfa'r Gwastrodion ac un o'r Swyddogion Negesau wedi'u secondio'n swyddogol o'r Lluoedd Arfog i helpu Tywysog Cymru a Duges Cernyw i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

		£miliwn
Trethi		**4.854**

Ar ôl tynnu costau'r gwariant swyddogol, mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar warged Dugaeth Cernyw, gan gadw at y rheolau treth incwm arferol ac ar y raddfa o 45 y cant. Fel unrhyw unigolyn preifat, mae'r Tywysog hefyd yn talu treth ar bob incwm arall a threth ar enillion cyfalaf. Mae'r swm o £4.854 miliwn yn cynnwys TAW. O gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogwr, a'r Dreth Gyngor, mae'r cyfanswm yn codi i £5.3 miliwn.

		£miliwn
Gwariant answyddogol		**3.003**

Yn ogystal â thalu am ddyletswyddau swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, ac am rai gweithgareddau elusennol ac atebolrwydd y

Tywysog i dalu trethi, mae'r incwm o Ddugaeth Cernyw hefyd yn talu am gostau gwariant answyddogol Tywysog Cymru a'i deulu.

Mae'r gwariant answyddogol yn cynnwys costau cyflogi 8.0 o aelodau staff personol sy'n cyfateb i amser llawn, sy'n cynnwys ysgrifenyddion personol, pen-cogyddion a gweision. Yn ogystal â'r rhain, mae 10.2 o aelodau staff sy'n cyfateb i amser llawn yn gweithio ar yr ystâd a'r ffermydd, ac yn y gerddi a'r stablau. Mae'r gwariant personol hefyd yn cynnwys y gyfran briodol o gostau Tŷ Highgrove yn Swydd Gaerloyw a Birkhall ar Ystâd Balmoral yn yr Alban, a chostau cynnal yr ystâd a'r gerddi yn Highgrove. Mae'r ardd yn ased elusennol gwerthfawr, a daeth dros 32,500 o bobl i'w gweld y llynedd, gan godi dros £600,000 at achosion elusennol.

Mae costau Home Farm, fferm organig y Tywysog ar Ystâd Highgrove, wedi'u cynnwys dan y pennawd hwn. Fferm weithio yw Home Farm a sefydlwyd gan Dywysog Cymru i ddangos y buddion masnachol ac amgylcheddol sy'n deillio o ffermio'n organig ac yn gynaliadwy. Daeth tua 860 o bobl i'w gweld y llynedd.

Staff

Fel yr oeddent ar 31 Mawrth, ac ar gyfer y flwyddyn hyd at yr un dyddiad	**Staff sy'n cyfateb i amser llawn 2018**	**Costau Swyddogol £000oedd 2018**
Prif Ysgrifennydd Preifat a Chynorthwywyr	3.0	
Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat		
Ysgrifennydd Preifat	0.5	
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat ac Ysgrifenyddion Cynorthwyol	6.0	
Staff Ymchwilio a Gweinyddu	15.1	
Gohebiaeth	3.0	
Adnoddau Dynol	6.0	
	33.6	2,759
Adran y Trysorydd		
Trysorydd a Chynorthwywyr	2.8	
Cyllid	7.6	
Archifau a Rhestru Eiddo	5.8	
	16.2	1,221
Cyfathrebu		
Ysgrifennydd Cyfathrebu a Chynorthwywyr	4.0	
Ysgrifenyddion Cyfathrebu Cynorthwyol a Dirprwyol	2.0	
Swyddogion Cyfathrebu ac Ymwneud Digidol	5.0	
	11.0	806
Adran Meistr yr Aelwyd		
Meistr yr Aelwyd a Chynorthwywyr	4.5	
Gwastrawd	1.0	
Cydgysylltwyr Rhaglenni a Theithio	4.6	
Bwtleriaid	1.3	
Pen-cogyddion a Phorthorion y Gegin	4.4	
Swyddogion Negesau	5.1	
Derbynfa	1.0	
Gyrwyr	3.0	
Rheolwyr Tŷ a Staff Cadw Tŷ	8.9	
Gweision a Gwisgwyr	2.5	
Garddwyr a Gweithwyr Ystâd	21.2	
	57.5	3,737
Cyfanswm y Staff Swyddogol ar 31 Mawrth 2018	**118.3**	**8,523**

Swyddfeydd

Mae prif swyddfa Tywysog Cymru a Duges Cernyw, lle mae'r mwyafrif o'u staff yn gweithio, yn Nhŷ Clarence ac mewn rhannau eraill o Balas St James yng nghanol Llundain. Y Grant Sofran sy'n talu costau cynnal adeiladwaith yr adeiladau, yn ogystal â chyfran o gostau'r gwasanaethau a'r llinellau ffôn sefydlog. Mae swyddfeydd hefyd ar gyfer staff swyddogol yng nghartrefi Eu Huchelderau Brenhinol yn Highgrove a Birkhall, er mwyn cynorthwyo'r Tywysog gyda'i waith parhaus. Mae rhai o gostau Highgrove a Birkhall yn cael eu cynnwys, felly, dan y categori gwariant 'Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol'.

Trefn y Staff a'r Swyddfeydd

Y Prif Ysgrifennydd Preifat

Y Prif Ysgrifennydd Preifat yw'r uwch aelod o Aelwyd Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae'n gyfrifol am bob agwedd ar y gwaith o redeg yr Aelwyd ac am oruchwylio cyrff elusennol a mudiadau eraill Ei Uchelder Brenhinol.

Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat

Yr Ysgrifennydd Preifat sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am redeg Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat. Mae ef a'r Ysgrifenyddion Preifat a Chynorthwyol eraill yn hybu a hwyluso dyletswyddau swyddogol, ymrwymiadau a gweithgareddau elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Maent yn gyfrifol am ddyddiaduron Eu Huchelderau Brenhinol, ac yn trefnu sesiynau briffio, derbyniadau ac achlysuron eraill, yn gweinyddu gohebiaeth, ac yn cydgysylltu ymchwil a gwybodaeth sy'n eu cynorthwyo gyda'u gwaith. Mae pob Ysgrifennydd Preifat yn gyfrifol am feysydd penodol ac am y cysylltiadau â rhai o fudiadau'r Tywysog a'r Dduges. Maent hefyd yn gofalu bod Ei Uchelder Brenhinol yn cael gwybod am faterion cyfoes, yn rhoi gwybodaeth gefndirol iddo i'w helpu gyda'i ohebiaeth a'i gyfarfodydd, ac yn paratoi drafftiau o'i areithiau a'i erthyglau. Mae ymchwilwyr, cynorthwywyr personol a staff gweinyddol yn cynorthwyo'r Ysgrifenyddion Preifat gyda'u gwaith, ac maent yn gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn yr aelwydydd eraill.

Bob blwyddyn, mae Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry'n cael nifer fawr o lythyrau. Yn ystod 2017-18, er enghraifft, cawsant 53,716 o

lythyrau a chardiau. Mae pobl o bob rhan o'r byd yn ysgrifennu at Eu Huchelderau Brenhinol, er bod y mwyafrif o'r llythyrau'n dod o'r Deyrnas Unedig.

Mae'r llythyrau'n tynnu sylw at amryw o wahanol bynciau, a materion a phynciau trafod cyfoes sy'n aml yn eu hysgogi. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gweld dewis eang o'r llythyrau, ac yn ateb llawer ohonynt. Ysgrifennodd y Tywysog ei hun 1,396 o lythyrau yn ystod 2017-18. Ysgrifennodd Duges Cernyw 1,739 ei hun. Mae Eu Huchelderau Brenhinol yn gofalu bod yr Adran Ohebiaeth yn ateb ar eu rhan y llythyrau nad ydyn nhw eu hunain neu eu Hysgrifenyddion Preifat yn eu hateb. Ar ben hynny, mae'r Tywysog a'r Dduges yn cael nifer o geisiadau oddi wrth amryw o wahanol elusennau a chyrff eraill am roddion neu eitemau i'w harwerthu. Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru sy'n delio â cheisiadau am roddion ac eitemau i'w harwerthu. Er ei bod hi'n amhosib ymateb i bob un o'r llu o geisiadau am eitemau i'w harwerthu, mae Ei Uchelder Brenhinol yn rhoi eitemau fel lithograffau o'i luniau dyfrlliw, llyfrau wedi'u llofnodi a theithiau o amgylch yr ardd yn Highgrove. Mae'r eitemau hyn yn codi degau o filoedd o bunnoedd at elusennau bob blwyddyn..

Adnoddau Dynol

Mae'r Adran Adnoddau Dynol, sy'n dod o dan gyfrifoldebau'r Prif Ysgrifennydd Preifat, yn darparu tîm o staff ac awyrgylch gwaith cynhyrchiol iawn sy'n caniatáu i'r staff bob amser wneud y gorau o'u cyfraniad at fywydau swyddogol a phreifat Eu Huchelderau Brenhinol. Yr adran sy'n gyfrifol am bob agwedd ar staffio'r Aelwyd, gan gynnwys patrymau staffio, chwilio am staff a dewis rhai newydd, secondiadau i mewn i'r Aelwyd ac i fannau'r tu allan iddi, cyflogau a buddiannau staff, hyfforddiant a datblygu, cyfathrebu mewnol, a phob agwedd ar iechyd a lles staff, a chysylltiadau staff. Yn ogystal â chreu a chyflwyno profiadau hyfforddi sy'n gysylltiedig â gwaith, mae'r adran hefyd yn cynorthwyo'r staff yng nghyswllt y cyfleoedd i ddatblygu gyrfa ym mhob rhan o'r Aelwyd a'r sefydliad.

Swyddfa'r Trysorydd

Swyddfa'r Trysorydd sy'n gyfrifol am Gyllid ac Archifau, a'r Rhestr Eiddo. Y swyddfa hon sy'n gyfrifol hefyd am systemau gwybodaeth yr Aelwyd gyfan. Y Trysorydd yw Cyfarwyddwr Gweithredol Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau'r Sefydliad, gan gynnwys ei is-gwmnïau masnachu. Ar ben

hynny, mae'r Trysorydd yn monitro'r agweddau ariannol ar Elusennau'r Tywysog ac am eu gweithgareddau. Fel Cyfarwyddwr Gweithredol, mae'n gyfrifol am y Swyddfa Elusennau, a phrif rôl y swyddfa honno yw hwyluso cydweithio rhwng Elusennau'r Tywysog ac yn fewnol ym mhob un o'r elusennau, ac i weithredu fel y prif gyswllt rhwng y gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Mae'r Swyddfa Elusennau'n cynnig cymorth a chyngor i'r elusennau mewn meysydd fel llywodraethu corfforaethol, diwydrwydd dyladwy, y polisïau o ran rhoddion a chodi arian, cynllunio, ariannu a chyfathrebu. Sefydliad Elusennol Tywysog Cymru sy'n talu costau'r Swyddfa Elusennau.

Y Trysorydd sydd hefyd yn gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â chyhoeddi, contractau a materion cyfreithiol. Mae'r Adran Gyllid yn rheoli'r agweddau ariannol drwy gyfuno gweithdrefnau fel cyllidebau blynyddol, ailwampio rhagolygon, cyfrifon rheoli misol a chyfres o systemau a gweithdrefnau cyfrifyddu, yn enwedig o safbwynt awdurdodi gwariant. Mae'r adran yn gyfrifol hefyd am sicrhau'r gwerth gorau am arian ac mae'n gweithio gydag Adran Meistr yr Aelwyd ar faterion caffael. Mae'r mwyafrif o systemau technoleg gwybodaeth yr Aelwyd yn cael eu cyflenwi a'u cynnal gan adran Rheoli Systemau Gwybodaeth Palas Buckingham, a Thywysog Cymru sy'n talu costau'r Aelwyd.

Mae tri Archifydd yn gyfrifol am reoli'r holl bapurau a'r ffeiliau sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus Tywysog Cymru ers diwedd yr 1960au. Ceidwad yr Archifau sydd hefyd yn rheoli ceisiadau i'r Tywysog a'r Dduges weithredu fel noddwr neu lywydd dros fudiad, yn ogystal â'r achosion lle maent eisoes yn gweithredu fel noddwr neu lywydd. Mae un rheolwr rhestru eiddo a dau gynorthwyydd yn gyfrifol am gofnodi a chadw anrhegion a'r holl asedau y mae Eu Huchelderau Brenhinol yn berchen arnyn nhw.

Cyfathrebu

Fel Etifedd yr Orsedd, mae diddordeb mawr gan y cyhoedd a'r cyfryngau yng ngweithgareddau Tywysog Cymru, yn ogystal â gweithgareddau Duges Cernyw, ei wraig. Mae Swyddfa Gyfathrebu Tŷ Clarence yn helpu pobl i ddod i ddeall gwaith a gweithgareddau Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae'r Swyddfa Gyfathrebu hefyd yn trin a thrafod pob ymholiad o'r cyfryngau, a dulliau rhagweithiol o gyfathrebu sy'n cynnwys rhaglenni nodwedd, rhaglenni dogfen a digwyddiadau, ar gyfer Tywysog Cymru a Duges Cernyw, ac

mae'n cydweithio'n agos â chydweithwyr yn y Swyddfeydd Cyfathrebu Brenhinol eraill o safbwynt agweddau cyffredinol ar y Frenhiniaeth.

Mae'r wefan www.princeofwales.gov.uk yn ffynhonnell boblogaidd o wybodaeth ar gyfer y cyfryngau, ymchwilwyr a'r cyhoedd o'r Deyrnas Unedig ac o wledydd tramor. Yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am ymrwymiadau Eu Huchelderau Brenhinol, mae'r safle'n cynnig gwybodaeth am eu gwaith a'u gweithgareddau elusennol, yn ogystal ag areithiau ac erthyglau diweddar, manylion bywgraffyddol, ac oriel gynhwysfawr o luniau.

Adran Meistr yr Aelwyd

Meistr yr Aelwyd sy'n gyfrifol am raglen o ymrwymiadau Tywysog Cymru a Duges Cernyw, Swyddfa'r Gwastrawd, cartrefi, swyddfeydd a gerddi Eu Huchelderau Brenhinol, staff personol, derbyniadau a'r holl weithgareddau croesawu. Meistr yr Aelwyd, ar y cyd â'r Heddlu Metropolitan, sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch, ac mae'n gyfrifol ar y cyd am gyfrinachedd. Swyddfa'r Gwastrawd sy'n rheoli dyddiaduron Eu Huchelderau Brenhinol o ddydd i ddydd, ac yn cynllunio'r rhaglen yn y tymor hir. Mae Swyddfa'r Gwastrawd hefyd yn rheoli trefniadau logistaidd a threfniadau teithio'r ymweliadau swyddogol gartref a thramor. Fel arfer, mae amryw o deithiau tramor bob blwyddyn. Swyddog milwrol sy'n dal i wasanaethu yn y fyddin yw'r Gwastrawd, wedi'i secondio o'r Lluoedd Arfog i'r Aelwyd am gyfnod o tua dwy flynedd.

Bob blwyddyn, mae'r Tywysog a'r Dduges yn cael miloedd o wahoddiadau oddi wrth lawer o wahanol gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Eu Huchelderau Brenhinol a'u staff yn rhoi sylw manwl i bob un. Wrth drefnu'r ymweliadau bob blwyddyn, bydd y Gwastrawd yn cydweithio â'r Ysgrifenyddion Preifat, Swyddfa'r Wasg a chyrff allweddol eraill i ofalu bod y Tywysog a'r Dduges yn cynnwys dewis eang o wahanol ddiddordebau, yn cwrdd â llawer o wahanol bobl ac yn mynd i gymaint o rannau o'r wlad â phosibl. Mae'r Gwastrawd yn gweithredu hefyd fel pwynt cyswllt ar gyfer materion milwrol ac amddiffyn. Mae cysylltiadau agos gan Dywysog Cymru â'r Lluoedd Arfog, nid dim ond ym Mhrydain ond yn y Gymanwlad hefyd.

Mae Tywysog Cymru'n arwain arwisgiadau ym Mhalas Buckingham (roedd naw arwisgiad yn ystod 2017-18), ac mae hefyd yn cynrychioli'r Frenhines mewn nifer o achlysuron gwladol. Swyddfa'r Gwastrawd sy'n gyfrifol am drefniadau'r ymrwymiadau hyn.

Mae croesawu swyddogol yn rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru a Duges Cernyw. Mae'r achlysuron hyn yn amrywio o groesawu gwesteion swyddogol a phobl amlwg o wledydd tramor i gynnal ciniawau a chyngherddau er mwyn diolch i'r rheini sy'n ymwneud ag elusennau'r Tywysog a'r Dduges.

Mae Adran Meistr yr Aelwyd hefyd yn cynnwys Swyddogion Negesau (sy'n cynnal cyfarpar y swyddfa ac yn gyfrifol am offer swyddfa, deunyddiau ysgrifennu a cheir swyddfa), a Derbynyddion. Yr Adran sy'n gyfrifol hefyd am iechyd a diogelwch.

Mae Adran Meistr yr Aelwyd yn gyfrifol ar y cyd hefyd am y cartrefi Brenhinol eraill, gan gynnwys Highgrove. Y llynedd, aeth dros 32,500 o bobl o amgylch yr ardd yn Highgrove, sy'n golygu cyfanswm o tua 491,676 o ymwelwyr ers i'r ardd gael ei hagor i'r cyhoedd yn 1992. Roedd yr ymwelwyr yn cael cyfle hefyd i brynu eitemau o siop Highgrove, ac mae holl elw'r siop yn mynd i'r Sefydliad. Ar ben hynny, mae'r rheini sy'n mynd i dderbyniadau swyddogol yn yr haf yn cael cyfle fel arfer i weld yr ardd. Gan ei fod wedi ymrwymo i warchod treftadaeth naturiol Prydain, mae'r Tywysog yn defnyddio'r ardd fel lle i warchod rhywogaethau o blanhigion, blodau a choed sydd mewn perygl, a'i obaith yw y bydd ymwelwyr yn mwynhau gweld y manteision sy'n dod yn sgil rheoli tir mewn ffordd naturiol a garddio organig.

Ymweliadau blynyddol

Mae'r Tywysog a'r Dduges yn ymweld sawl gwaith y flwyddyn â Chymru a'r Alban. Roedd cost yr ymweliadau blynyddol hirach hyn, sy'n berthnasol i dderbyniadau a chiniawau'n bennaf, yn dod i gyfanswm o £25,446 yn 2017-18, ac mae wedi'i chynnwys dan y pennawd gwariant 'croesawu swyddogol'.

Gweithio i'r Aelwyd

Mae Aelwyd Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cyflogi pobl mewn amryw o wahanol ddisgyblaethau, sydd â gwahanol fathau o sgiliau i gynorthwyo Eu Huchelderau Brenhinol i gyflawni eu rôl amlwg mewn bywyd cyhoeddus. Fel cyflogwr, mae'r Aelwyd yn falch o allu

dweud ei bod wedi ymrwymo i'w staff, gan annog yr unigolion sy'n gweithio iddi i ddatblygu a ffynnu.

Mae'r Aelwyd wedi croesawu interniaethau haf, lleoliadau profiad gwaith ac ymweliadau gan ysgolion, gyda'r nod o helpu pobl i ddeall natur gweithio yn y mudiad bywiog hwn.